



Fforwm Trydydd Sector Gwent



Trosolwg

Ar 7fed Mai 2025, hwylusodd Llais Fforwm Trydydd Sector Gwent, gan ymgysylltu â 60 o bobl o sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau lechyd a Gofal Cymdeithasol.

Clywsom gan Fwrdd lechyd Prifysgol Aneurin Bevan am eu strategaeth newydd ac ymgysylltiad y trydydd sector.

Rhannodd Llais fewnwelediadau gan bobl a chymunedau ledled Gwent, gan dynnu sylw at bwysigrwydd rhoi pobl wrth wraidd gwasanaethau.

Arweiniodd GAVO a TVA drafodaeth ford gron fewnwelediadol ar ymyrraeth gynnar ac atal, gan drafod sut i ddangos tystiolaeth o effaith ac adrodd arni. Codwyd llawer o gwestiynau pwysig ynghylch cyrraedd y rhai sydd angen y Gwasanaethau lechyd a Gofal Cymdeithasol fwyaf.

'Strategaeth 10 mlynedd' Bwrdd lechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Cyflwynodd Bwrdd lechyd Prifysgol Aneurin Bevan eu strategaeth newydd, gan dynnu sylw at gydweithio â sefydliadau trydydd sector.

Cadarnhawyd ymgysylltiad â grwpiau cymunedol amrywiol, gan gynnwys y gymuned Sipsiwn-Teithwyr ac oedolion hŷn sydd angen gofal 24 awr. Er mwyn sicrhau hygyrchedd, mae fersiynau symlach o'r strategaeth, fel fformatau hawdd eu darllen, ar gael. Er mwyn cyrraedd unigolion sydd wedi'u hynysu'n gymdeithasol, gweithiodd y Bwrdd lechyd gyda grwpiau cymunedol dibynadwy a chynigiodd arolygon ar-lein a phapur i wneud y mwyaf o gyfranogiad.

Heriau Allweddol yn y Sector Gwirfoddol

Strategaeth a Chomisiynu

Mae'r galw'n cynyddu i'r Trydydd Sector ddiwallu'r angen mewn mannau cymunedol 'lle mae pobl'. Dyma'r heriau:

- Tegwch ledled Gwent.
- Llai o adnoddau a sefydlogrwydd i grwpiau'r trydydd sector.
- Risg crebachu'r sector dros y degawd nesaf.

Straen Adnoddau

- Mwy o atgyfeiriadau (e.e., presgripsiynu cymdeithasol) heb adnoddau cyfatebol.
- Rhestrau aros cynyddol ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl, cyflyrau'n gwaethygu.
- Cefnogaeth annigonol i bobl mewn llety dros dro.

Hyfforddiant a'r Gweithlu

- Dim fframwaith hyfforddi cyffredinol ar gyfer staff y Grant Cymorth Tai (HSG).
- Hyfforddiant anghyson ar draws 22 awdurdod lleol.
- Heriau recriwtio a chadw staff yn effeithio ar ddarparu gwasanaethau.

Rhwystrau Gweithredol

- Dim fframwaith hyfforddi cyffredinol ar gyfer staff y Grant Cymorth Tai (HSG).
- Hyfforddiant anghyson ar draws 22 awdurdod lleol.
- Heriau recriwtio a chadw staff yn effeithio ar ddarparu gwasanaethau.

Problemau Cyllido

- Cylchoedd cyllido tymor byr.
- Baich adrodd uchel ar grantiau bach.
- Dim sylw ar gyfer costau canolog nac addasiadau chwyddiant.
- Mae tendro cystadleuol yn lleihau costau ac ansawdd gwasanaeth.

Darnio Systematig

- Cydlynw gwael ar draws byrddau a rhwydweithiau rhanbarthol.
- Diffyg sgysiau a chynllunio integredig.
- Mae cyllid tymor byr yn cyfyngu ar ffocws strategol tymor hir.

Mynediad ac Allgymorth

- Mynediad cyfyngedig i systemau apwyntiadau anhyblyg.
- Diffyg gwasanaethau allgymorth lleol fel llawdriniaethau "mini" ar gyfer cleientiaid anodd eu cyrraedd



Ymyrraeth Gynnar ac Atal y Trydydd Sector

Beth ydyw?

- Cymorth rhagweithiol i atal argyfyngau cyn iddynt waethygu.
- Canolbwyntio ar iechyd meddwl, trais domestig, cymorth ieuenctid, ac adferiad o drawma.
- Wedi'i gyflwyno drwy ysgolion, meddygfeydd teulu, gwasanaethau mynediad agored, ac allgymorth cymunedol.



Sut gellir ei adrodd?

- Fformatau lluosog:
 - o Llwyfannau digidol.
 - o Astudiaethau achos ac adroddiadau naratif.
 - o Dolenni adborth a chylchoedd adrodd rheolaidd.
- Elfennau allweddol:
 - o Amllder adrodd.
 - o Defnyddio tystiolaeth ansoddol a meintiol.
 - o Amlygu effaith hirdymor a chanlyniadau adferiad.




Sut gellir dangos tystiolaeth ohono?

- Data meintiol:
 - o Ystadegau, canlyniadau o raglenni trais domestig, cyfraddau defnyddio gwasanaethau.
 - o Grwpiau ffocws, cyfweiliadau lled-strwythuredig.
 - o Astudiaethau achos a straeon defnyddwyr gwasanaethau.
 - o Adborth gan baneli defnyddwyr gwasanaethau (S.U.J).
- Dulliau cymysg: Cyfuno ystadegau â phrofiadau byw i gael darlun mwy cyflawn.



Themau Allweddol y Dyfodol

- Diogelu: Rhwydweithio cryfach o wasanaethau ar gyfer polisi a chefnogaeth.
- Ymgysylltu leuenctid (PPPI): Gwaith yn yr ysgol ar emosiynau, hunaniaeth a diogelwch.
- Mynediad: Model "Un drws ffrynt" ar gyfer mynediad haws i wasanaethau.
- Wedi'i lywio gan drawma: Dulliau therapiwtig a chefnogaeth gan gymheiriaid.
- Meithrin Gallu: Buddsoddi mewn atal hirdymor, nid ymateb i argyfwng yn unig.



Diolch am fynychu'r fforwm. Cymerwch ychydig funudau i gwblhau arolwg byr ar sut roeddech chi'n teimlo bod y fforwm wedi mynd: [Cliciwch Yma](#)